

# Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Diweddariad Hydref 2020

## Atodiad

Argymhellion gweithredu'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)	Ein camau a'n hymrwymiaadau ar y cyd		Amcan galluogi Cenhadaeth ein cenedl
	Rydym wedi cymryd y camau canlynol mewn ymateb i argymhellion yr OECD.	Rydym yn ymrwmo i gymryd y camau canlynol mewn ymateb i argymhellion yr OECD.	
<b>1. Datblygu dealltwriaeth gyffredin o sut beth yw'r weledigaeth yn ymarferol</b>			
1.1 Datblygu gweledigaeth gyffredinol a throswaol o'r hyn y bydd y cwricwlwm yn ei olygu'n ymarferol mewn ysgolion	<p>Gwnaethom gyhoeddi canllawiau dysgu ym mis Gorffennaf 2020 mewn ymateb i heriau COVID-19 a byddwn yn gwrandao ar werthusiadau ac adborth parhaus Estyn.</p> <p>Gwnaethom ddatgymhwyso gofynion y cwricwlwm yn ystod tymor yr haf 2020, ac rydym wedi addasu'r rhai sy'n weddill ar sail ymdrechion rhesymol ar gyfer tymor yr hydref 2020 (y mae'n gyfreithiol ofynnol i'w hadolygu bob 30 diwrnod), er mwyn rhoi amser a hyblygrwydd i ysgolion ailintegreiddio dysgwyr a chanolbwyntio ar eu lles.</p> <p>Gwnaethom gyhoeddi canllawiau Cwricwlwm i Gymru ym mis Ionawr 2020, sy'n rhoi cymorth manwl i ysgolion ar ddatblygu eu cwricwla eu hunain.</p> <p>Gwnaethom gyd-awduro dogfen disgwyliadau a rennir sy'n nodi'r disgwyliadau a rennir o ran yr hyn y bydd diwygio'r cwricwlwm yn ei olygu mewn ysgolion a'r camau tuag at 2022, a byddwn yn cyhoeddi hon yn fuan.</p>	<p>Byddwn yn cyhoeddi'r disgwyliadau a rennir erbyn mis Hydref 2020 er mwyn cefnogi a pharatoi ysgolion ar gyfer rhoi Cwricwlwm i Gymru ar waith.</p> <p>Byddwn yn cydweithio â phartneriaid i ddatblygu a chyhoeddi cynllun cyflawni'r cwricwlwm ar y cyd ar gyfer partneriaid y llywodraeth a phartneriaid strategol.</p> <p>Byddwn yn sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o ymarferwyr a rhanddeiliaid i rannu dealltwriaeth ar draws y proffesiwn, casglu gwybodaeth a chyd-awduro atebion i broblemau, ac yn cydweithio i roi'r cynllun cyflawni ar waith, erbyn mis Ionawr 2021.</p> <p>Byddwn yn cefnogi'r Bil Cwricwlwm ac Asesu i gael Cydsyniad Brenhinol erbyn gwanwyn 2021.</p> <p>Byddwn yn datblygu'r adnoddau a'r deunyddiau ategol cyntaf erbyn haf 2021 er mwyn helpu ymarferwyr i wireddu Cwricwlwm i Gymru.</p> <p>Byddwn yn datblygu ac yn cyhoeddi canllawiau ychwanegol ar y cwricwlwm i gefnogi ymarferwyr mewn meysydd allweddol penodol erbyn mis Medi 2021.</p>	Pob un o'r pedwar amcan galluogi.

Argymhellion gweithredu'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)	Ein camau a'n hymrwymadau ar y cyd		Amcan galluogi Cenhadaeth ein cenedl
	Rydym wedi cymryd y camau canlynol mewn ymateb i argymhellion yr OECD.	Rydym yn ymrwymo i gymryd y camau canlynol mewn ymateb i argymhellion yr OECD.	
1.2 Diffinio amcanion a dangosyddion gweithredol cysylltiedig i fonitro cynnydd tuag at gyflawni'r weledigaeth, gan gynnwys rhoi'r cwricwlwm ar waith	Roedd canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys crynodeb manwl o'r disgwyliadau, gan gynnwys datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer Cwricwlwm i Gymru.	Byddwn yn monitro cynnydd amcanion a dangosyddion gweithredol drwy ein strwythur llywodraethu, yn benodol drwy ein Byrddau Cyflawni a Newid.	Pob un o'r pedwar amcan galluogi.

Argymhellion gweithredu'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)	Ein camau a'n hymrwymiaadau ar y cyd		Amcan galluogi Cenhadaeth ein cenedl
	Rydym wedi cymryd y camau canlynol mewn ymateb i argymhellion yr OECD.	Rydym yn ymrwmo i gymryd y camau canlynol mewn ymateb i argymhellion yr OECD.	
<b>2. Cefnogi pob ysgol ledled Cymru i wireddu'r cwricwlwm</b>			
2.1 Trefnu grwpiau arbenigol a all adolygu Cwricwlwm i Gymru gan adeiladu ar y fframwaith presennol er mwyn sicrhau ei fod yn gydlynol yn fewnol, wedi'i gynllunio'n dda ac yn cefnogi dealltwriaeth fanwl; ac ystyried dulliau asesu ar gyfer dysgu sy'n gysylltiedig ac yn gallu mesur cynnydd myfyrwyr	<p>Mae gweithgor wedi'i sefydlu i gynghori ar adnoddau dysgu ac addysgu proffesiynol.</p> <p>Mae'r asesiad gwerthuso o Gwricwlwm i Gymru wedi cychwyn a bydd yn dechrau adrodd o haf 2022.</p> <p>Mae amrywiaeth o grwpiau arbenigol ar waith ar gyfer y cwricwlwm ac asesu, ac maent yn cyfarfod yn rheolaidd yn ôl yr angen er mwyn cyfrannu at lunio a chyflawni polisiau a chynghori ar hyn.</p> <p>Sefydlwyd grŵp rhanddeiliaid adnoddau addysgol dwyieithog i gefnogi addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a dysgu Cymraeg wrth newid y cwricwlwm.</p>	<p>Bydd Cymwysterau Cymru yn lansio ymgynghoriad i 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol', gan ddatblygu'r cynnig cymwysterau i bobl ifanc 14 i 16 oed yn ystod gaeaf 2020.</p> <p>Byddwn yn sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o ymarferwyr a rhanddeiliaid i rannu dealltwriaeth ar draws y proffesiwn, casglu gwybodaeth a chyd-awduro atebion i broblemau erbyn mis Ionawr 2021. Bydd y rhwydwaith cenedlaethol hefyd yn cynghori ar weithredu.</p> <p>Byddwn yn cymryd rhan yn PISA 2022. (Gohiriwyd PISA ar gyfer 2020 a 2021.)</p> <p>Byddwn yn cytuno ar y broses gwella ansawdd ar gyfer meysydd dysgu a phrofiad erbyn haf 2021.</p> <p>Bydd y grŵp rhanddeiliaid adnoddau addysgol dwyieithog yn cynghori ar y seilwaith angenrheidiol ar gyfer creu adnoddau dwyieithog.</p> <p>Byddwn yn datblygu'r adnoddau a'r deunyddiau ategol cyntaf erbyn haf 2021 er mwyn helpu ymarferwyr i wireddu Cwricwlwm i Gymru.</p> <p>Byddwn yn datblygu ac yn cyhoeddi canllawiau ychwanegol ar y cwricwlwm i gefnogi ymarferwyr mewn meysydd allweddol penodol erbyn mis Medi 2021.</p>	Dysgu proffesiynol. Gwerthuso, gwella ac atebolrwydd.

Argymhellion gweithredu'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)	Ein camau a'n hymrwymiaidau ar y cyd		Amcan galluogi Cenhadaeth ein cenedl
	Rydym wedi cymryd y camau canlynol mewn ymateb i argymhellion yr OECD.	Rydym yn ymrwymo i gymryd y camau canlynol mewn ymateb i argymhellion yr OECD.	
2.2 Datblygu gwybodaeth, deunyddiau a lle ar lefel leol a lefel yr ysgol er mwyn gallu deall a chyd-gynllunio eu cwricwlwm eu hunain sy'n adlewyrchu dyheadau'r fframwaith	<p>Gwnaethom lansio Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, sy'n cynnwys recriwtio'r hyn sydd gyfwerth â 600 o athrawon ychwanegol a 300 o gynorthwyrwr addysgu ychwanegol.</p> <p>Rydym yn ariannu'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) yng nghyd-destun adolygu cymorth arweinyddiaeth ar draws y system a datblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol pellach i arweinwyr.</p> <p>Rydym wedi cynyddu'r adnoddau sydd ar gael i rymuso cyrff llywodraethu.</p> <p>Rydym wedi sefydlu prosiect dysgu cydweithredol gyda'r consortia rhanbarthol, prifysgolion a phartneriaid rhyngwladol.</p> <p>Rydym wedi cefnogi ysgolion i gysylltu'n ddigidol er mwyn ychwanegu at y seminarau a'r cynadleddau mwy traddodiadol.</p> <p>Rydym wedi buddsoddi yng ngham meithrin gallu cyntaf y Rhaglen Coetsio a Mentora Genedlaethol.</p> <p>Rydym wedi buddsoddi yn y dull ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu mewn ysgolion.</p>	<p>Byddwn yn sicrhau bod y Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau yn recriwtio adnoddau priodol i gyflawni bwriadau'r rhaglen.</p> <p>Byddwn yn cynnal adolygiad cyflym o gymorth i benaethiaid yng ngoleuni her COVID-19 a'r cyfleoedd a gyflwynir gan Gwricwlwm i Gymru.</p> <p>Byddwn yn monitro'r adnoddau a ddefnyddir er mwyn grymuso cyrff llywodraethu i sicrhau perthnasedd ac effaith.</p> <p>Byddwn yn adolygu ac yn ailfframio'r prosiect dysgu cydweithredol yng ngoleuni'r heriau i weithredu ledled y wlad ac yn rhyngwladol.</p> <p>Byddwn yn buddsoddi ymhellach yn y Rhaglen Coetsio a Mentora Genedlaethol.</p> <p>Byddwn yn buddsoddi ymhellach yn y dull ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu mewn ysgolion.</p>	<p>Dysgu proffesiynol.</p> <p>Arweinyddiaeth.</p> <p>Gwerthuso, gwella ac atebolrwydd.</p>

Argymhellion gweithredu'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)	Ein camau a'n hymrwymiaadau ar y cyd		Amcan galluogi Cenhadaeth ein cenedl
	Rydym wedi cymryd y camau canlynol mewn ymateb i argymhellion yr OECD.	Rydym yn ymrwmo i gymryd y camau canlynol mewn ymateb i argymhellion yr OECD.	
2.3 Buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu gallu gweithwyr proffesiynol ym maes addysg i fod yn brif ysgogwyr y cwricwlwm mewn ysgolion drwy ddatblygu eu sgiliau a'u cymwyseddau a'u hannog i gydweithio	<p>Rydym wedi cynyddu'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r broses o ddarparu dysgu cyfunol. Mae hon yn flaenoriaeth benodol yng nghyd-destun COVID-19, er ei bod yn cyd-fynd ag arferion gorau rhyngwladol ac yn gyson â'n dyheadau ar gyfer diwygio'r cwricwlwm.</p> <p>Rydym wedi ailddylunio'r rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon (AGA) yng Nghymru ac wedi gweithio gyda'r rhanbarthau a phrifysgolion i ddatblygu rhaglen gymorth newydd ar gyfer gyrfa gynnar.</p> <p>Rydym wedi mabwysiadu dull strategol newydd o recriwtio a chadw athrawon.</p> <p>Gwnaethom sefydlu'r Corff Adolygu Cyflogau Cymru i gydnabod y proffesiwn yng Nghymru.</p> <p>Rydym wedi cynyddu cynnwys, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr adnoddau sydd ar gael ar Hwb.</p> <p>Rydym wedi lansio'r Prosiect Addysgeg Cenedlaethol er mwyn annog archwilio a thrafod mewn perthynas â goblygiadau Cwricwlwm i Gymru i ymarfer.</p> <p>Rydym wedi sefydlu gradd genedlaethol Meistr mewn Addysg a gaiff ei chynnig gan y mwyafrif o brifysgolion yng Nghymru.</p> <p>Rydym wedi cynllunio a datblygu cyfres o raglenni dysgu proffesiynol sydd wedi'u hachredu a'u monitro gan Gyngor y Gweithlu Addysg, a'u cefnogi gan e-bortffolio o'r radd flaenaf – y Pasbort Dysgu Proffesiynol.</p>	<p>Byddwn yn cynnig mynediad digidol wedi'i ddiweddarau i ddsygu proffesiynol drwy'r consortia rhanbarthol, a thrwy ychwanegu llawer o adnoddau ar Hwb i gefnogi sgiliau ymarferwyr wrth ddarparu dysgu cyfunol.</p> <p>Byddwn yn cefnogi datblygiad parhaus AGA, yn enwedig gyda'r darparwyr a achredwyd ddiweddaraf ac yng ngoleuni heriau COVID-19.</p> <p>Byddwn yn adolygu ac yn ailgynllunio'r trefniadau sefydlu a chymorth gyrfa gynnar (gan gynnwys cyflwyno rhaglen gyrfa gynnar) gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.</p> <p>Byddwn yn lansio strategaeth recriwtio a chadw newydd gyda'r nod o wyrdroi'r duedd am i lawr o ran recriwtio ar gyrsiau AGA.</p> <p>Byddwn yn cynyddu nifer y cyfranogwyr ar y Prosiect Addysgeg Cenedlaethol o leiaf 200 y cant yn ystod y flwyddyn.</p> <p>Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn dysgu proffesiynol er mwyn datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu a chynyddu nifer yr athrawon cynradd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i 3,100 a nifer yr athrawon uwchradd sy'n addysgu'r Gymraeg fel pwnc i 600.</p> <p>Byddwn yn cynyddu nifer yr athrawon uwchradd sy'n addysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg i 2,200.</p>	<p>Dysgu proffesiynol.</p> <p>Arweinyddiaeth.</p> <p>Gwerthuso, gwella ac atebolrwydd.</p>

Argymhellion gweithredu'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)	Ein camau a'n hymrwymadau ar y cyd		Amcan galluogi Cenhadaeth ein cenedl
	Rydym wedi cymryd y camau canlynol mewn ymateb i argymhellion yr OECD.	Rydym yn ymrwymo i gymryd y camau canlynol mewn ymateb i argymhellion yr OECD.	
2.3 Buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu gallu gweithwyr proffesiynol ym maes addysg i fod yn brif ysgogwyr y cwricwlwm mewn ysgolion drwy ddatblygu eu sgiliau a'u cymwyseddau a'u hannog i gydweithio ( <i>parhad</i> )	Gwnaethom barhau i gefnogi'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymdrin ag Ymchwil ac Ymholiad Addysgol. Gwnaethom sefydlu'r Gwasanaeth Cynghori/Eirioli Cenedlaethol a llwyfan digidol cenedlaethol i hyrwyddo gyrfaedd ym myd addysg.	Byddwn yn cynllunio'r dull gwerthuso ar gyfer gradd genedlaethol Meistr mewn Addysg cyn iddi gael ei lansio yn 2021. Byddwn yn lansio'r Dull Cenedlaethol o Ymdrin ag Ymchwil ac Ymholiad Addysgol ym mlwyddyn academaidd 2020/21 er mwyn sicrhau gwell cydlyniant ym mhob agwedd ar ymchwil. Byddwn yn cyfoethogi portffolio o wasanaethau Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru yng ngoleuni'r adolygiad o gymorth arweinyddiaeth. Byddwn yn defnyddio gwybodaeth arolwg ochr yn ochr â data o gyfrifiad blynyddol y gweithlu ysgolion i fesur lles y gweithlu, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau effeithiol ar y disgwyliadau ar gyfer HMS.	Dysgu proffesiynol. Arweinyddiaeth. Gwerthuso, gwella ac atebolrwydd.

Argymhellion gweithredu'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)	Ein camau a'n hymrwymiaadau ar y cyd		Amcan galluogi Cenhadaeth ein cenedl
	Rydym wedi cymryd y camau canlynol mewn ymateb i argymhellion yr OECD.	Rydym yn ymrwmo i gymryd y camau canlynol mewn ymateb i argymhellion yr OECD.	
<p>2.4 Blaenoriaethu ystyriaethau tegwch wrth ddarparu dysgu proffesiynol, gwasanaethau gwella ysgolion ac adnoddau er mwyn osgoi'r risg y bydd anghydraddoldebau'n cynyddu pan gaiff y cwricwlwm ei wireddu</p>	<p>Rydym wedi cyflwyno cynlluniau ar gyfer ymatebion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i COVID-19 yn y dyfodol gan rymuso ein partneriaid.</p> <p>Rydym wedi penodi'r Athro Charlotte Williams OBE i gadeirio'r Gweithgor newydd ar Gymunedau, Cyfraniadau a Chynefin: Profiadau Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a'r Cwricwlwm Newydd.</p> <p>Ers cyflwyno'r Grant Datblygu Disgyblion, mae £475 miliwn wedi cefnogi 530,000 o blant a phobl ifanc i gyflawni eu canlyniadau addysgol gorau.</p> <p>Yn ystod tymor y llywodraeth hon, rydym wedi cynyddu elfen blynyddoedd cynnar y Grant Datblygu Disgyblion o £300 i £1,150 fesul plentyn gan ddangos y flaenoriaeth a roddir gennym i ymyrryd yn gynnar ac atal.</p> <p>Rydym wedi parhau i gefnogi plant sy'n derbyn gofal drwy'r Grant Datblygu Disgyblion, gan ddarparu dros £5 miliwn i'r consortia rhanbarthol.</p> <p>Rydym wedi comisiynu Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro Cymru i gyflwyno argymhellion cychwynnol ar gyfer Model Darparu Gwaith Ieuenctid cynaliadwy.</p> <p>Mae ein harweinwyr trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wedi ymgymryd â'r gwaith paratoi angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y system ADY newydd yn cael ei lansio'n llwyddiannus yn 2021.</p>	<p>Byddwn yn cyhoeddi Siarter Gwaith Ieuenctid Cymru a chanllawiau cysylltiedig.</p> <p>Byddwn yn darparu pecynnau hyfforddi ar-lein ar y system ADY newydd ar Hwb erbyn diwedd haf 2021.</p> <p>Byddwn yn cyflwyno'r Cod ADY gerbron y Senedd ym mis Chwefror 2021 a byddwn yn dechrau ei roi ar waith fesul cam o fis Medi 2021. Bydd rolau statudol ar gyfer y Cod ADY yn dechrau ym mis Ionawr 2021.</p> <p>Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o'r Grant Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr er mwyn sicrhau bod addysg yn gynhwysol ac yn hygyrch i bob dysgwr.</p> <p>Byddwn yn parhau i gyflawni'r ymrwymiaadau yn y <i>Fframwaith Gweithredu ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol</i>.</p> <p>Byddwn yn datblygu'r dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd corfforol, iechyd meddwl a lles, a byddwn yn cynyddu'r gallu i ddarparu gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion.</p> <p>Byddwn yn diweddarau'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.</p>	<p>Tegwch, rhagoriaeth a lles.</p> <p>Gwerthuso, gwella ac atebolrwydd.</p>

Argymhellion gweithredu'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)	Ein camau a'n hymrwymiaadau ar y cyd		Amcan galluogi Cenhadaeth ein cenedl
	Rydym wedi cymryd y camau canlynol mewn ymateb i argymhellion yr OECD.	Rydym yn ymrwmo i gymryd y camau canlynol mewn ymateb i argymhellion yr OECD.	
2.4 Blaenoriaethu ystyriaethau tegwch wrth ddarparu dysgu proffesiynol, gwasanaethau gwella ysgolion ac adnoddau er mwyn osgoi'r risg y bydd anghydraddoldebau'n cynyddu pan gaiff y cwricwlwm ei wireddu ( <i>parhad</i> )	<p>Rydym yn cydweithio â phrifysgolion i gynllunio a datblygu cynnig dysgu proffesiynol newydd er mwyn cefnogi rôl y cydlynnydd ADY a hyfforddi seicolegwyr addysg newydd i Gymru.</p> <p>Gwnaethom ddechrau ymgynghoriad ar gynigion i ganiatáu i gynrychiolwyr weithredu ar ran pobl ifanc a rhieni/gofalwyr plant nad oes ganddynt alluedd meddyliol, wrth arfer eu hawliau o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.</p> <p>Gwnaethom ymgynghori ar ddull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles.</p> <p>Rydym wedi parhau i fodloni'r ymrwymiaadau a nodir yn <i>Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Cynllun gweithredu</i>.</p> <p>Mae Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf (SHEP) wedi tyfu'n raddol bob blwyddyn a bellach yn cyrraedd bron 3,000 o ddysgwyr.</p> <p>Rydym wedi cynyddu argaeledd brecwast am ddim a phrydau ysgol am ddim mewn ysgolion.</p> <p>Mae Rhwydwaith SEREN yn parhau i dyfu, gan gysylltu â'n dysgwyr mwy galluog a thalentog.</p> <p>Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r ar gyfer yr 21ain Ganrif.</p>	<p>Byddwn yn adolygu'r canllawiau <i>Bwyta'n iach mewn ysgolion a gynhelir</i> erbyn diwedd mis Mawrth 2021.</p> <p>Byddwn yn sicrhau bod yr adnoddau a gomisiynir gennym yn cael eu datblygu yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd er mwyn cefnogi Cwricwlwm i Gymru.</p> <p>Byddwn yn parhau i gefnogi SHEP.</p>	<p>Tegwch, rhagoriaeth a lles.</p> <p>Gwerthuso, gwella ac atebolwydd.</p>



Argymhellion gweithredu'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)	Ein camau a'n hymrwymiadau ar y cyd		Amcan galluogi Cenhadaeth ein cenedl
	Rydym wedi cymryd y camau canlynol mewn ymateb i argymhellion yr OECD.	Rydym yn ymrwmo i gymryd y camau canlynol mewn ymateb i argymhellion yr OECD.	
<b>3. Sicrhau bod y broses gyd-awduro yn canolbwyntio ar y camau nesaf i ysgolion</b>			
3.1 Egluro a sicrhau dealltwriaeth a rennir o rolau a chyfrifoldebau diwygiedig pob rhanddeiliad yn ogystal â'r camau nesaf i wireddu'r cwricwlwm	<p>Rydym wedi gohirio arolygiadau ysgolion yn rhannol yn ystod 2020/21 er mwyn i Estyn allu cynnal ymweliadau ymgysylltu ag ysgolion.</p> <p>Rydym wedi ymgysylltu â sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch mewn perthynas â diwygio'r cwricwlwm.</p>	<p>Byddwn yn cyhoeddi disgwyliadau a rennir erbyn mis Hydref 2020 er mwyn cefnogi ysgolion yn y camau y mae angen iddynt eu cymryd i baratoi ar gyfer rhoi Cwricwlwm i Gymru ar waith.</p> <p>Byddwn yn ymgynghori ar ganllawiau a chodau Cwricwlwm i Gymru o wanwyn 2021.</p> <p>Byddwn yn gwerthuso effeithiolrwydd y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth yn ystod haf 2021.</p>	Tegwch, rhagoriaeth a lles. Gwerthuso, gwella ac atebolrwydd.
3.2 Cynnal y broses gyd-awduro dros y tymor canolog drwy arwain systemau a pharhau i fuddsoddi mewn dulliau ymgynghori ac ymgysylltu sydd wedi bod yn llwyddiannus wrth ddatblygu cydberchnogaeth o gamau ac ymddiriedaeth	<p>Rydym wedi parhau i weithio gyda phartneriaid ym mhob rhan o'r system addysg a dangoswyd hyn ddiweddaraf yn ein hymateb i COVID-19 ac yn y gwaith o gyd-awduro canllawiau.</p> <p>Rydym wedi parhau i weithio gyda'r Grŵp Cyflawni Addysg Strategol a'r Bwrdd Newid ac rydym yn parhau i roi ymgynghori wrth wraidd ein dull gweithredu.</p>	Byddwn yn sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o ymarferwyr a rhanddeiliaid i rannu dealltwriaeth ar draws y proffesiwn, casglu gwybodaeth a chyd-awduro atebion i broblemau erbyn mis Ionawr 2021. Bydd y rhwydwaith cenedlaethol hefyd yn cynghori ar weithredu.	Arweinyddiaeth.

Argymhellion gweithredu'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)	Ein camau a'n hymrwymiadau ar y cyd		Amcan galluogi Cenhadaeth ein cenedl
	Rydym wedi cymryd y camau canlynol mewn ymateb i argymhellion yr OECD.	Rydym yn ymrwymo i gymryd y camau canlynol mewn ymateb i argymhellion yr OECD.	
3.3 Parhau â'r strategaeth gyfathrebu glir ac wedi'i thargedu a all gyfrannu at sicrhau cysondeb, diben a rennir a lledaenu gwybodaeth ac arferion da ledled Cymru	<p>Gwnaethom ddatblygu strategaeth gyfathrebu wedi'i hintegreiddio'n ddigidol gyda phartneriaid.</p> <p>Gwnaethom lansio ymgyrch Dal ati i Ddysgu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni/gofalwyr a rhoi tawelwch meddwl iddynt ac i athrawon wrth i ysgolion ailagor mewn ymateb i bandemig COVID-19.</p> <p>Gwnaethom lansio ymgyrch recriwtio Addysgu Cymru yn 2019; cafodd ei gohirio pan ddechreuodd COVID-19 a'i hailddechrau ym mis Gorffennaf 2020.</p>	<p>Byddwn yn sefydlu rhaglen i rannu arferion gorau a lledaenu gwybodaeth drwy'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru.</p> <p>Byddwn yn parhau ag ymgyrch Dal ati i Ddysgu.</p> <p>Wrth i'r gwaith o roi Cwricwlwm i Gymru ar waith fynd rhagddo, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y Strategaeth Gyfathrebu ar gyfer Diwygio Addysg.</p> <p>Byddwn yn parhau ag ymgyrch recriwtio Addysgu Cymru.</p> <p>Byddwn yn cefnogi'r gwaith o roi'r Rhaglen Trawsnewid ADY ar waith.</p>	Dysgu proffesiynol. Gwerthuso, gwella ac atebolrwydd.
3.4 Cefnogi holl ysgolion Cymru i sicrhau eu bod yn barod drwy ddatblygu rhwydweithiau cydweithredol sy'n ysgogi arbenigedd ac adnoddau cwricwlaidd, gyda chyfranogiad gan ymarferwyr, Ysgolion Arloesi, arbenigwyr cwricwlwm ac asesu, ac arbenigwyr prifysgolion perthnasol	<p>Gwnaethom barhau i gydweithio'n agos ag Estyn a chonsortia rhanbarthol i sicrhau neges gyffredin ar draws y system gyfan.</p> <p>Gwnaethom gyhoeddi canllawiau dysgu ym mis Gorffennaf 2020.</p>	<p>Byddwn yn sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o ymarferwyr a rhanddeiliaid i rannu dealltwriaeth ar draws y proffesiwn, casglu gwybodaeth, a chyd-awduro cymorth ac atebion i broblemau erbyn mis Ionawr 2021. Bydd y rhwydwaith cenedlaethol hefyd yn cynghori ar weithredu.</p> <p>Bydd Estyn yn datblygu'n 'arolygiaeth dysgu' gyda chylch gwaith clir i weithio gydag ysgolion, consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol.</p> <p>Bydd yr Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol yn darparu llwyfan ar gyfer cydweithredu effeithiol rhwng ysgolion yn lleol ac yn genedlaethol er mwyn cefnogi system addysg hunanwella yng Nghymru gan gynnwys canllawiau ac adnoddau ymarferol.</p> <p>Byddwn yn lansio cynllun i ddatblygu sgiliau cyrff llywodraethu.</p>	Arweinyddiaeth. Gwerthuso, gwella ac atebolrwydd.

Argymhellion gweithredu'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)	Ein camau a'n hymrwymiaadau ar y cyd		Amcan galluogi Cenedlaeth ein cenedl
	Rydym wedi cymryd y camau canlynol mewn ymateb i argymhellion yr OECD.	Rydym yn ymrwmo i gymryd y camau canlynol mewn ymateb i argymhellion yr OECD.	
<b>4. Cyfnerthu cydlyniaeth polisiau o amgylch ysgolion</b>			
4.1 Parhau i ddatblygu rôl consortia rhanbarthol drwy wella seilwaith y gwasanaeth gwella ysgolion, buddsoddi mewn gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn consortia ledled Cymru, a sicrhau cysondeb wrth weithredu rhwng y cwricwlwm a pholisiau eraill, gan gynnwys y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Rydym wedi datblygu rôl consortia rhanbarthol mewn perthynas â gwella ysgolion.	Byddwn yn datblygu canllawiau gwella ysgolion sy'n nodi rôl consortia rhanbarthol o fewn y system werthuso, gwella ac atebolrwydd newydd yn glir.	Arweinyddiaeth. Gwerthuso, gwella ac atebolrwydd.
4.2 Sicrhau bod dysgu am y cwricwlwm newydd wrth wraidd y model ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu ar gyfer y blynyddoedd nesaf	Rydym wedi sefydlu a grymuso Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru, sy'n parhau i ddarparu portffolio o wasanaethau i arweinwyr.	Byddwn yn lansio arolwg ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu newydd erbyn mis Ionawr 2021 er mwyn galluogi ysgolion i ailgynnal eu hunanwerthusiad mewn amser real ac am ddim.	Dysgu proffesiynol. Arweinyddiaeth.
4.3 Gwerthuso cydlyniaeth polisiau yn barhaus ar draws polisiau cydategol (o bosibl), yn enwedig o ran safonau proffesiynol ac arweinyddiaeth	Rydym wedi parhau i gasglu a rhannu arferion effeithiol ym mhob rhan o'r system er mwyn cefnogi ysgolion i enghreifftio'r Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol yn effeithiol yn ymarferol, drwy bresenoldeb ar y we ac mewn gweminarau.	Byddwn yn datblygu cysylltiadau clir rhwng yr Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol a phrosiectau datblygu cenedlaethol eraill, ac yn sicrhau cysondeb â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth.  Byddwn yn cyhoeddi gwerthusiad annibynnol o gynllun peilot ariannu darpariaeth feithrin y Cyfnod Sylfaen yn hydref 2020.	Dysgu proffesiynol. Arweinyddiaeth.

Argymhellion gweithredu'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)	Ein camau a'n hymrwymiadau ar y cyd		Amcan galluogi Cenhadaeth ein cenedl
	Rydym wedi cymryd y camau canlynol mewn ymateb i argymhellion yr OECD.	Rydym yn ymrwymo i gymryd y camau canlynol mewn ymateb i argymhellion yr OECD.	
<p>4.4 Cyfnerthu fframwaith gwerthuso ac asesu (gan gynnwys cymwysterau, atebolrwydd, gwerthuso systemau ac ysgolion) a datblygu agenda ymchwil systematig a chadarn sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd</p>	<p>Rydym wedi sefydlu grŵp rhanddeiliaid er mwyn helpu i ddatblygu a chwblhau'r canllawiau gwella ysgolion.</p> <p>Rydym yn gweithio gydag ysgolion o bob cwr o Gymru i ddatblygu adnoddau digidol sy'n enghreifftio ac yn modelu dulliau hunanwerthuso effeithiol, gan bwysleisio ansawdd y broses ac nid y ddogfennaeth.</p> <p>Rydym yn parhau i gasglu a rhannu arferion effeithiol ym mhob rhan o'r system er mwyn cefnogi ysgolion i enghreifftio'r Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol yn effeithiol yn ymarferol, drwy bresenoldeb ar y we ac mewn gweminarau.</p> <p>Rydym wedi datblygu rôl Cyngor y Gweithlu Addysg yn y gwaith o gofrestru a rheoleiddio'r gweithlu.</p> <p>Gwnaethom ddarparu hyfforddiant i aelodau etholedig a chefnogi gwaith ar graffu a newid ymarfer.</p> <p>Rydym wedi cydweithio'n helaeth ag Estyn a phartneriaid strategol.</p>	<p>Bydd Cymwysterau Cymru yn lansio ymgynghoriad ar 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol' gan ddatblygu'r cymwysterau sydd ar gael i bobl ifanc 14 i 16 oed yn ystod gaeaf 2020.</p> <p>Caiff yr adroddiadau ar adolygiad annibynnol o ganlyniadau arholiadau yng Nghymru yn 2020 eu cyhoeddi ym mis Hydref a mis Rhagfyr 2020.</p> <p>Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bartneriaid am y trefniadau ar gyfer arholiadau 2021.</p> <p>Byddwn yn comisiynu gwaith ymchwil i lywio gofynion data a gwybodaeth yn y dyfodol i gefnogi trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd.</p> <p>Byddwn yn ymgynghori ar y canllawiau gwella ysgolion drafft gyda'r nod o gyhoeddi fersiwn gyntaf y canllawiau ym mis Mawrth 2021.</p> <p>Byddwn yn datblygu cysylltiadau clir rhwng yr Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol a phrosiectau datblygu cenedlaethol eraill, megis y daith dysgu proffesiynol, ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu a'r Prosiect Addysgeg Cenedlaethol, gan gysoni â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth.</p>	<p>Gwerthuso, gwella ac atebolrwydd.</p>